**Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council**

**Polisi Dyfarnu Grantiau**

## Datganiad Polisi

Mae gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog ymroddiad i gefnogi cymdeithasau sydd yn gweithredu o fewn y Gymuned a gweithgareddau sydd yn elwa trigolion yr ardal. Mae gan y Cyngor cyllideb fach ar gael er mwyn darparu grantiau i gefnogi Cymdeithasau Cymunedol. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau wrth grwpiau gwirfoddol ac elusennol sydd yn gweithredu o fewn ardal Cyngor Cymuned Llandyfaelog sydd yn medru dangos sut mae'r cyllid yn elwa trigolion neu'r Gymuned yn uniongyrchol.

## Nod y Polisi

Bydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn cefnogi cymdeithasau Cymunedol ac Elusennol lle credwyd yn briodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau a gweithgareddau ar gael er mwyn trigolion y Gymuned.

## Manylion y Polisi

1. Gall unrhyw Elusen, Grŵp Gwirfoddol neu Gymdeithas Gymunedol sydd yn gweithredu neu yn darparu gwasanaeth i drigolion neu'r Gymuned gwneud cais am grant i Gyngor Cymuned Llandyfaelog.
2. Mae rhaid i geisiadau grant fod yn ysgrifenedig ac yn dangos sut bydd y cyllid yn elwa trigolion neu ardal y Gymuned.
3. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn ystod cyfarfodydd Cyngor mis Mehefin, Medi, Rhagfyr a Mawrth.
4. Ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau i unigolion.
5. Bydd grantiau yn cael eu dyfarnu i gymdeithasau cenedlaethol yn unig os maent yn darparu gwasanaethau sydd yn elwa trigolion new ardal Cymuned Llandyfaelog.
6. Bydd eisiau derbyn cydnabyddiaeth derbyniad grant.
7. Mewn amgylchiadau cyffredin bydd grantiau yn cael eu dyfarnu i gymdeithasau unwaith mewn tymor o 12 mis yn unig.
8. Gall grantiau cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas nodwyd yn unig.
9. Gall Cyngor Cymuned Llandyfaelog gofyn am dystiolaeth gwariant ac os ddim yn fodlon gellir gofyn am ad-daliad y grant.
10. Ni fydd Cyngor yn ystyried grant am weithgareddau ystyriwyd i fod yn gyfrifoldeb awdurdod statudol.
11. Gall Cyngor Cymuned Llandyfaelog gofyn am gopi o gyfrifon ariannol blaenorol y Gymdeithas cyn gwneud penderfyniad ar ddyfarnu grant.
12. Bydd Cyngor yn adolygu'r polisi dyfarnu grantiau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol.

**Cytunwyd y Polisi 12/5/16**